*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG

# Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau").

Mae adran 25 o'r Mesur yn darparu bod rhaid i berson gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir, a thra bodlonir, chwe amod. Amod 1 yw bod y person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i'r person. Nid yw'r amodau eraill yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 33 o'r Mesur yn darparu bod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw'r person (a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8. Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5. Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw'r person (a) wedi ei bennu yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 6 ("y tabl yn Atodlen 6"), neu (b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno. Nid yw Atodlenni 7 ac 8 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adran 36 yn darparu bod safon yn gymwysadwy i berson os yw'r safon yn perthyn i ddosbarth o safonau a bennir yng ngholofn 2 o gofnod y person yn y tabl yn Atodlen 6. Mae pob un o'r canlynol yn ddosbarth o safonau—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(ii) safonau llunio polisi;

(iii) safonau gweithredu;

(iv) safonau hybu;

(v) safonau cadw cofnodion;

Mae adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, neu at gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(ii) safonau llunio polisi;

(iii) safonau gweithredu;

(iv) safonau cadw cofnodion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy fewnosod Panel Dyfarnu Cymru, Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn Atodlen 6 a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob person.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gysylltiedig â Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hynny a'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol sy'n ymdrin â'r Rheoliadau hynny a'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG

# Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | **** |
| *Yn dod i rym* | *26 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 35 a 38 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), ac wedi cael cymeradwyaeth Senedd Cymru(**2**) yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2025.

### Diwygio Atodlen 6

**2.** Yn y tabl yn Atodlen 6(**3**) (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, o dan y pennawd "Cyffredinol", yn y lleoedd priodol mewnosoder—

(**1**) 2011 mccc 1.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 150(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) Mae diwygiadau i Atodlen 6 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

| | |
|---|---|
| "Comisiwn Ffiniau i Gymru ("*Boundary Commission for Wales*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("*Future Generations Commissioner for Wales*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Panel Dyfarnu Cymru ("*Adjudication Panel for Wales*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad